# Cofrestr o gyfranwyr

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

8 Hydref 2015

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 28 Medi, pan wnaethoch ofyn,

*Yr wyf yn gwneud cais i weld y rhestr o'r rhai sydd wedi rhoi cyfraniad ariannol i bob un o Weinidogion y Cynulliad yn y Senedd bresennol. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cynnwys yr holl grwpiau swyddogol a gyfrannodd at ymgyrchoedd etholiadol a / neu ymchwil i ddeddfwriaeth wedi i'r Gweinidog gymryd ei sedd.*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Yn eich cais, rydych yn sôn am Weinidogion y Cynulliad. Mae Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion Cymru; cyfeirir atynt yn eu cyfanrwydd fel Gweinidogion Cymru.

Mae'r Gweinidogion yn glynu wrth God y Gweinidogion ac, yn unol â'r Cod hwn, rhaid cyhoeddi gwybodaeth benodol.
http://gov.wales/about/cabinet/code2011/?lang=cy

Mae'r rheolau ychydig yn wahanol i Aelodau'r Cynulliad. Yn ôl Adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 2, mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gadw a chyhoeddi Cofrestr Buddiannau Aelodau'r Cynulliad. Mae'r Gofrestr ar gael ar ein gwefan - http://cynulliadcymru.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-register.htm

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Buddug.Saer@Cynulliad.Cymru Buddug.Saer@Assembly.Wales

Mae Pennod 6 o'r Canllawiau ar Gofrestru, Datgan a Chofnodi Buddiannau'r Aelodau , yn ymwneud yn benodol â'ch cais.

Gan fod y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes yn weddol hawdd ei chael drwy ddulliau eraill.

Yn olaf, mae'r Comisiwn Etholiadol (y corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac sy'n rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau), yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl ar ei wefan mewn perthynas â chyfraniadau i bleidiau gwleidyddol http://www.electoralcommission.org.uk/ .

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF